CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 4ydd o Ragfyr 2018 / 4th December 2018

Yn bresennol / Present: Cyng Bill Green, Cyng Sion Jenkins, Cyng Bryan Thomas, Cyng Emyr Rees, Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Daniel Evans, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Eluned Jones, Cyng Catrin Jones

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Hazel Thomas, Cyng Alwena Williams

Materion Personol/Personal Matters:
Dim / None

1.	**Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests** Dim / None.
2.	**Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes** Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd yn gywir gan y Cyng. Emyr Rees ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Geraint Davies. *The November minutes were proposed as a true record by Cllr Emyr Rees and seconded by Cllr Geraint Davies.*
3.	**Materion yn Codi – Matters Arising**
a.	Cynghorydd Newydd / New Councillor – Cafodd Mrs Catrin Jones ei hethol fel cynghorydd newydd ar y cyngor cymuned i lenwi sedd Mrs Helen Howells. *Mrs Catrin Jones was elected as a new councillor on the community council to fill the seat of Mrs Helen Howells.*
b.	Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Roedd adroddiad ROSPA yn un cadarnhaol felly nid oes angen gwario unrhyw arian eleni ar y parc chwarae. *The ROSPA report was satisfactory therefore no costs need to be spent on the park this year.*
c.	Sul y Cofio / Remembrance Sunday – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad ac i Sion am y defnydd o'r tir ar gyfer y goelcerth. Daeth tyrfa dda ynghyd ac mi roedd y te yn ffein iawn*!* Codwyd fod angen mwy o drefn yn y seremoni y flwyddyn nesaf yn absenoldeb ficer yn ein Plwyf. Bydd angen gofyn i'r ysgol am 'speakers' ac angen trefn penodol ac enwau'r milwyr ar bapur, gwneud casgliad, penderfynu ar y canu, ayyb. Rhaid cael cyfarfod gyda'r Ficer cyn y diwrnod. Pasiwyd bod y Clerc yn dod a threfn ddrafft i'r cyfarfod nesaf. *The Chair thanked everyone for their contribution and Sion for the use of the land for the bonfire. A good crowd attended and the tea was tasty! It was raised that there was a need for an order of service for the ceremony in the absence of a Vicar in our parish. Speakers will need to be sought from the school and the names of the soldiers be printed out, a collection made etc. A meeting should be held with the vicar before the day.*

	It was passed that the clerk would bring a draft order of service to the next meeting.
ch.	Precept – Wedi trafodaeth cynnigwyd £8000 gan y Cyng Geraint Davies ac eliwyd gan y Cyng Emyr Rees, yr un swm a llynnedd. *After a discussion the sum of £8000 was proposed by Cllr Geraint Davies and seconded by Cllr Emyr Rees, which is the same amount as last year.*
4.	**Gohebiaeth – Correspondence**
a.	Section 137 - £8.12 yw'r swm priodol ar gyfer 2019 -2020 am bob etholwr. *£8.12 is the appropriate sum for 2019-2020 per elector.*
b.	Eisteddfod Genedlaethol 2020 National Eisteddfod – Darllenwyd cofnodion cyfarfod cyntaf cronfa lleol Llanwenog a Llanwnnen allan. *The minutes of the first meeting for the Llanwenog and Llanwnnen local fund were read out.*
c.	Tree Charter Day – Dyddiad wedi pasio ond y cynnwys wedi ei nodi / *Date Passed but content noted*
ch.	Gwobrau Un Llais Cymru Awards – Penderfynwyd pasio'r wybodaeth ymlaen at y Cyng Hazel Thomas a'r Cyng Alwena Williams i weld oes diddordeb gennynt ymgeisio ar ran y Cyngor Cymuned. *It was decided to pass the information onto Cllr Hazel Thomas and Cllr Alwena Williams to see if they have an interest in entering a category on behalf of the Community Council.*
d.	Swydd wag Un Llais Cymru vacancy – Nodwyd / Noted
dd.	Gwasanaethau gwledig / Rural services - Nodwyd / Noted
e.	Understanding Welsh Places - Deall Llefydd Cymru - Nodwyd / Noted
5.	**Taliadau a Ceisiadau am arian – Payments and Requests for Money**
a.	Costau Sul y Cofio/ Remembrance Sunday Costs - £28.60 llungopio a £24.00 Welsh cakes
b.	Gwobrau Un Llais Cymru Awards - £100.00
7.	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting**
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 8fed o Ionawr am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. *It was decided to hold the next meeting on the 8th January at 7.30pm at Drefach Village Hall.*

b.	Cysgodfan bws Cwrtnewydd bus shelter – Gofynodd y Cyng Eluned Jones os oedd y gwaith wedi ei orffen gan fod y to dal yn gollwng, dim ond un pane maent wedi newid ac maent wedi ysgbuo'r dail i un cornel. Mi wneith y Clerk ofyn i'r Cyngor Sir. *Cllr Eluned Jones asked if the work had finished as the roof is still leaking, only one pane has been changed and they have brushed debris to one corner. The Clerk will ask the County Council.*
c.	Cylchfan Highmead Roundabout – Cododd y Cyng Daniel Evans fod tyfiant brigau yn cae ystad Highmead sy'n atal pobl rhag gweld ceir yn dod o gyfeiriad Llanybydder. Cytunwyd y peth gorau fyddai cael gair gyda tenant y tir. *Cllr Daniel Evans raised that small trees are obstructing visibility from the Llanybydder direction on the roundabout. It was agreed that the best course of action would be to have a work with the tenant of the land.*

Arwyddwyd…….
Dyddiad……